

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Datblygiadau Bach eu Heffaith Yn Gwneud Cyfraniad Cadarnhaol (Datblygiadau Un Blaned)



Canllawiau Cynllunio Atodol  
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer  
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd ar y 26ain o Fehefin 2013



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**  

---

**Pembrokeshire Coast  
National Park**

# Cynnwys

1	<b>Rhagarweiniad</b>	3
2	<b>Canllawiau sy'n benodol i Ddatblygiadau Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro</b>	7
3	<b>Dilyn y gofynion ym Mholisi 47</b>	17

# 1 Rhagarweiniad

## Y cyd-destun cynllunio cenedlaethol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned (OPD) / Datblygiadau Bach eu Heffaith (LID)

- 1.1 Mae Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (Mai 2009)<sup>1</sup> yn cynnwys amcan y dylai Cymru o fewn cenedlaeth, ddefnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear, gyda'n hól troed ecolegol wedi'i leihau i'r adnoddau cyfartalog byd-eang sydd ar gael - 1.88 hectar byd-eang y person yn 2003. Mae Datblygiadau Un Blaned yn hybu egwyddorion Datblygiadau Bach eu Heffaith (LID) yng Nghymru.
- 1.2 Mae'r cyd-destun cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad i'w weld ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.<sup>2</sup>
- 1.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru<sup>3</sup> yn diffinio Datblygiadau Un Blaned fel "Datblygiad sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n ei waethygu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. I gychwyn, dylai ôl troed ecolegol Datblygiadau Un Blaned fod yn ddim mwy na 2.4 hectar byd-eang y person o ran eu defnydd o adnoddau, a dylent ddangos potensial amlwg i symud tuag at ôl troed o 1.88 hectar byd-eang." [9.3.11].
- 1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynd ymlaen i nodi y dylai "...Datblygiadau Un Blaned ar y tir yng nghefn gwlad agored allu darparu o leiaf yr hyn sydd ei angen ar y trigolion o ran incwm, bwyd, ynni a thrin gwastraff am gyfnod o ddim mwy na 5 mlynedd o ddyddiad cychwyn y gwaith ar y safle. Dylid dangos hyn trwy gynllun rheoli a luniwyd gan berson(au) cymwys. Dylai'r cynllun rheoli nodi amcanion y cynnig, yr amserlen ar gyfer datblygu'r safle a'r amserlen ar gyfer ei adolygu. Os rhoddir caniatâd cynllunio, dylid defnyddio'r cynllun rheoli fel sylfaen ar gyfer cytundeb cyfreithiol ynghylch deiliadaeth y safle." [9.3.12].
- 1.5 Yna, mae TAN 6 wedyn yn datblygu'r gofynion uchod, gan ganolbwyntio ar yr angen am gynllun rheoli i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad. Mae TAN 6 yn nodi y dylai'r cynllun rheoli gael ei lunio gan berson (au) cymwys, y dylai nodi amcanion y cynnig, yr amserlen ar gyfer datblygu'r safle a'r amserlen ar gyfer adolygu. Nodir hefyd y dylai'r cynllun rheoli fod yn sail ar gyfer amod cynllunio a/neu gytundeb cyfreithiol yn ymwneud â meddiannu'r safle. [TAN 6, 4.16.1]

## Y polisi lleol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 1.6 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 yn ei gwneud yn glir bod Datblygiadau Un Blaned yn gweithredu ar egwyddorion Datblygiadau Bach eu Heffaith yng nghyd-destun Cymru. Yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn cyfeirir at Ddatblygiadau Un Blaned gan mai dyna'r term a ddefnyddir yn awr yn y canllawiau cynllunio cenedlaethol wrth gyfeirio at Ddatblygiadau Bach eu Heffaith.

---

<sup>1</sup> Gwegyswllt: <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?lang=cy>

<sup>2</sup> Gwegyswllt: <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy>

<sup>3</sup> Gwegyswllt: <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>



- 1.7 Mae'r polisi lleol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i nodi ym Mholisi 47 'Datblygiad Effaith Isel - Gwneud Cyfraniad Positif' yng Nghynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro (dyddiad gorffen 2021), y Cynllun Mabwysiedig 2010.<sup>4</sup>
- 1.8 Mae Polisi 47 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatblygiad Bach ei Effaith (Datblygiad Un Blaned) wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Parc Cenedlaethol o ran (a) yr amgylchedd; (b) y defnydd o adnoddau; ac (c) manteision cymdeithasol a / neu economaidd. Mae hefyd yn gofyn am brawf y bydd y cynigion yn sicrhau effaith niwtral neu o leiaf yr effaith andwyol isaf posibl ar gyfer pob rhan o agenda cynaliadwyedd y llywodraeth ar gyfer Datblygiadau Un Blaned, fel yr aseswyd gan y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Mae angen i gynigion fod yn gysylltiedig â'r tir ac yn darparu digon o fywoliaeth i'r meddianwyr. Gall un teulu neu ragor fod yn gysylltiedig ag un cais.
- 1.9 Fel y nodwyd yn TAN 6 mae angen cynllun rheoli i fynd gyda chais cynllunio ar gyfer Datblygiad Un Blaned, yn disgrifio'r cynnig yn ei gyfanrwydd ac, ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn mynd i'r afael â gofynion Polisi 47.

## **Polisi 47**

### **Datblygiad Effaith Isel yn gwneud Cyfraniad Positif**

#### **Caniateir datblygiad effaith isel yng nghefn gwlad sy'n gwneud cyfraniad positif yn yr achosion canlynol:**

- a) fe fydd y cynnig yn gwneud cyfraniad amgylcheddol, cymdeithasol a/neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus; ac
- b) mae pob gweithgarwch a strwythur ar y safle yn cael effaith isel o ran yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau; ac
- c) archwiliwyd cyfleoedd i aildefnyddio adeiladau sydd ar gael yn ardal weithredu'r cynnig a dangoswyd nad ydynt yn ymarferol; ac
- d) mae'r datblygiad wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd ac nid yw'n cael unrhyw effeithiau gweledol niweidiol; ac
- e) mae'r cynnig yn gofyn am leoliad gwledig ac wedi ei glymu'n uniongyrchol at y tir y mae wedi'i leoli arno, ac  
mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu arddwriaeth; ac
- f) fe fydd y cynnig yn darparu digon o fywoliaeth ar gyfer trigolion y safle ac yn cwrdd â'u hanghenion yn sylweddol; a
- g) dylai nifer y preswylwyr sy'n oedolion fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gofynion ymarferol y fenter; ac
- h) os yw'r datblygiad yn ymwneud ag aelodau mwy nag un o'r teulu, fe fydd y cynnig yn cael ei rheoli gan ymddiriedolaeth, cydweithfa neu fecanwaith tebyg arall y mae gan y preswylwyr fudd ynddo.

<sup>4</sup> Gwagyswllt: <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=178>

## Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddatblygiadau Un Blaned

- 1.10 Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Arweiniad Ymarferol penodol ar Ddatblygiadau Un Blaned<sup>5</sup> fel cydymaith i TAN 6. Mae'r arweiniad hwnnw'n ymwneud â'r cynllun rheoli sy'n gorfod cael ei gyflwyno gyda'r holl geisiadau cynllunio Datblygiadau Un Blaned, a'r Dadansoddiad Ôl-troed Ecolegol (EFA) sy'n ategu'r cynllun rheoli. Mae'r arweiniad yn rhoi cymorth ymarferol i ymgeiswyr ar gyfer llunio cynigion ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad ac ar gyfer yr awdurdodau cynllunio sy'n eu hasesu. Mae'n cynnwys yr holl ofynion ar gyfer gwneud cais cynllunio am Ddatblygiad Un Blaned. Mae hefyd yn cynnwys monitro tymor hirach.
- 1.11 Ochr yn ochr â'r arweiniad hwnnw mae cyfrifiannell<sup>6</sup> wedi'i chreu i fesur ôl troed ecolegol Datblygiadau Un Blaned, er nad oes rhaid defnyddio'r gyfrifiannell honno yn lle rhai eraill. Mae'r gyfrifiannell wedi deillio o offeryn REAP 2 Sefydliad Amgylcheddol Stockholm (SEI), ac mae ar gael i'w lawrlwytho o dudalen TAN 6 ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 1.12 Mae'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn rhan bwysig o'r wybodaeth a gyflwynir gyda'r cais cynllunio am Ddatblygiad Un Blaned, ac mae'n ofyniad wrth fonitro Datblygiadau Un Blaned maes o law. Mae'n bwysig oherwydd hwn fydd un o'r prif bethau a fydd yn dangos a lwyddir ai peidio i gyflawni Ffordd o Fyw Bach ei Heffaith. Felly, er na chyfeirir ato'n benodol yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn, mae'n ofyniad penodol o dan bolisi cenedlaethol (TAN 6) ac yn offeryn allweddol yn y monitro parhaus sy'n angenrheidiol i ategu'r cynllun rheoli a'r diwygiadau pum mlynedd dilynol.
- 1.13 Er mai dim ond y polisiau yn y cynllun datblygu sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, (hynny yw at ddibenion penderfynu ar gynigion o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r Cynllun oni bai fod ystyriaeth berthnasol yn mynnu fel arall), gellir rhoi sylw i Ganllawiau Cynllunio Atodol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.<sup>7</sup> Wrth wneud penderfyniadau ar faterion a ddaw ger ei bron, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol i ganllawiau cynllunio atodol a gymeradwywyd sy'n deillio o'r dull o weithredu yn y polisi cenedlaethol ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol<sup>8</sup> ac sydd wedi'u llunio yn unol â'r polisi hwnnw. Yn syml, mae gofynion y ddeddfwriaeth yn golygu bod angen talu sylw i'r anghenion canlynol wrth ystyried cynnig:
- A yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisiau yn y Cynllun Datblygu; a
  - Phwyso a mesur yr holl ystyriaethau cynllunio eraill i weld a ydynt yn drech na chasgliad y Cynllun Datblygu.<sup>9</sup>
- 1.14 Mae adroddiad am ymgynghoriadau yn manylu ar sut yr ymgynghorwyd ar y Canllawiau i'w weld ar wefan yr Awdurdod.<sup>10</sup>

## Strwythur y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn

<sup>5</sup> <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/oneplanet/?lang=cy>

<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/121101oneplanetguideen.pdf>

<sup>6</sup> <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/oneplanet/?lang=cy>

<sup>7</sup> Paragraff 5.2, tudalen 33, Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, Polisi ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

<sup>8</sup> Paragraff 5.3, tudalen 33, Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, Polisi ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

<sup>9</sup> Tudalen 27 <http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-ac-ymatebion-i-ymgyngori-imp/llawlyfr-cynllunio-arweiniad-ar-gyfer-aelodau-awdurdodau>

<sup>10</sup> [Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Canllawiau Cynllunio Atodol](#)

- 1.15 Mae'r cyfuniad o Bolisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 6 ac Arweiniad Ymarferol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygiadau Un Blaned (2012) yn darparu cyd-destun cynllunio a chanllawiau y dylid eu dilyn gan bob Datblygiad Un Blaned ledled Cymru, gan gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- 1.16 Wrth wneud cais cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned o fewn y Parc Cenedlaethol, dylai'r cynllun rheoli cysylltiedig ddilyn Arweiniad Ymarferol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygiadau Un Blaned. Yn ogystal, mae rhywfaint o gyngor ychwanegol penodol sy'n berthnasol i'r cyd-destun lleol, a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn. Dylid dilyn y cyngor hwnnw hefyd. Mae'r rhesymau am y canllawiau ychwanegol hyn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol:
- (a) yn ymhelaethu ar ofynion yr Arweiniad Ymarferol cenedlaethol, gan adlewyrchu statws Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
  - (b) yn disgrifio'r prosesau penodol a fydd yn cael eu dilyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wrth asesu'r cais cynllunio a'r cynllun rheoli cysylltiedig; neu
  - (c) yn ychwanegu gwybodaeth ar faterion cynllunio safonol (megis draenio) nad ydynt yn cael eu hystyried yn y Canllawiau ar Ddatblygiadau Un Blaned.
- 1.17 Mae'r canllawiau lleol ychwanegol, ym Mhennod 2, Tabl 3.1. ar ddiwedd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn, yn nodi gofynion Polisi 47 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gyferbyn â phob gofyniad cyfeirir at y paragraffau perthnasol o'r Arweiniad Ymarferol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned, a nodir ym mhle y dylai gael ei ddisgrifio yn y cynllun rheoli ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

## 2 Canllawiau sy'n benodol i Ddatblygiadau Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 2.1 Mae elfennau o ganllawiau LLEOL Trefniadau ar gyfer Datblygiadau Bach eu Heffaith (Datblygiadau Un Blaned) ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'u nodi isod.
- 2.2 Mae dwy ran i'r canllawiau ychwanegol hyn:
  - Mae'r rhan gyntaf yn nodi'r wyth gofyniad ym Mholisi 47 ac yn nodi lle y cânt eu cynnwys yn yr Arweiniad Ymarferol Cenedlaethol, gan nodi unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro lle bo hynny'n berthnasol.
  - Mae'r ail ran yn nodi unrhyw ofynion penodol eraill Awdurdod y Parc Cenedlaethol sydd heb eu cynnwys yn yr Arweiniad Ymarferol Cenedlaethol.
- 2.3 **Bwriedir i'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn gael eu darllen ochr yn ochr â'r Arweiniad Ymarferol Cenedlaethol, a'u hategu.**
- 2.4 Wrth baratoi cynllun rheoli Datblygiadau Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, awgrymir cadw at ffurf y cynllun rheoli a gynigir yn yr Arweiniad Ymarferol Cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd yn ddefnyddiol pe byddai ymgeiswyr yn cynnwys tabl ar wahân ar ddechrau'r cynllun rheoli sy'n nodi ym mhle yn y cynllun rheoli y caiff wyth gofyniad Polisi 47 eu trafod. Gall Tabl 3.1 yn y Canllawiau Cynllunio Atodol helpu gyda hyn.

## Wyth gofyniad Polisi 47 (Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)

**GOFYNIAD A: Bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad amgylcheddol, cymdeithasol a / neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus.** Mewn geiriau eraill, dylai pob Datblygiad Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro fod yn beth cadarnhaol i'r amgylchedd mewn ffyrdd sy'n dod â manteision cyhoeddus A dylai wneud cyfraniad cymdeithasol a / neu economaidd cadarnhaol mewn ffyrdd sy'n dod â manteision cyhoeddus, gyda'r manteision cyhoeddus hynny'n gymesur â maint y datblygiad.

- 2.5 **Cyfraniad amgylcheddol positif gyda manteision cyhoeddus:** Mae cyfraniad amgylcheddol positif Datblygiadau Un Blaned yn un o nodweddion hanfodol Datblygiadau Un Blaned a nodwyd yn yr Arweiniad Ymarferol (paragraff 1.9). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i Ddatblygiadau Un Blaned *gael effaith fach ar yr amgylchedd, gan wella'r amgylchedd lle bynnag y bo modd trwy weithgareddau ar y safle.*
- 2.6 Mae'r dulliau o gyflawni'r cyfraniad amgylcheddol hwn yn cael eu trafod yn llawn ym mharagraffau 3.37-3.52 o'r Arweiniad Ymarferol. Cyfeirir at gyflwr Llinell Sylfaen y safle cyn i Ddatblygiad Un Blaned ddigwydd (paragraffau 3.2 - 3.8 o'r Arweiniad Ymarferol). O ran darparu budd cyhoeddus yn benodol, y gallai hyn gael ei gyflawni, er enghraifft, drwy ymestyn ardal y nodweddion presennol o bwysigrwydd amgylcheddol (gweler paragraff 3.40 o'r Arweiniad Ymarferol), ac ar yr un pryd cymryd pob cyfle posibl i ofalu bod y safle yn ymdoddi i'w amgylchedd mewn ffyrdd sy'n cryfhau cymeriad y dirwedd leol (paragraff 3.42 o'r Arweiniad Ymarferol). Gweler hefyd Ofyniad D.
- 2.7 Dylai'r cyfraniad amgylcheddol cadarnhaol hwn gael ei grynhoi yn y Dyluniad / Strategaeth a'i ddisgrifio yn elfen Rheoli Tir y cynllun rheoli.

- 2.8 **Cyfraniad cymdeithasol a / neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus:** Mae Polisi 47 hefyd yn gofyn bod Datblygiadau Un Blaned yn y Parc Cenedlaethol yn dod â rhywbeth positif yn gymdeithasol / economaidd gyda budd cyhoeddus (gan adlewyrchu dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol). Serch hynny, ni ddylai hyn gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, er enghraifft, drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr yn sylweddol a/neu drwy gynyddu'r traffig yn sylweddol - dyma agwedd y mae Datblygiadau Un Blaned yn gwneud eu gorau i'w osgoi.
- 2.6 Nid yw'r Arweiniad Ymarferol yn disgwyl yn benodol y bydd manteision cymdeithasol ac economaidd yn cael eu darparu bob tro, ond er hynny disgwylir i Ddatblygiadau Un Blaned wynebu tuag allan ac ymgysylltu â'u cymunedau lleol. Ym mharagraff 3.28 o'r arweiniad nodir fel a ganlyn:
- “Dylai Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored fod yn rhan o wead cymdeithasol ac economaidd cefn gwlad Cymru – heb fod yn rhy ynysig na mewnblyg. Mae angen i safleoedd ddarparu digon o incwm i'w meddianwyr i gwrdd â'u hanghenion sylfaenol o ran incwm drwy werthu cynnyrch o'r safle (a gallai hyn gynnwys prosesu ac ychwanegu gwerth). Gallai gynnwys ffrydiau incwm eraill hefyd sy'n deillio o natur gynhyrchiol ac atgynhyrchiol y safle, fel cyrsiau addysg a hyfforddiant, neu wasanaethau cynghori sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau ar y tir ar y safle. **Er hynny, dylai fod yn glir bod y gweithgareddau olaf hyn yn ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch.** Mae hyn yn golygu ei bod bron yn sicr y bydd angen cynnyrch dros ben ar y safle i gyfrannu at y gwariant uchod ac i sicrhau bod ffrydiau incwm eraill a greir ar y safle'n rhai ategol.”
- 2.9 Dyma'r dull o weithredu yn y Parc Cenedlaethol hefyd. Fodd bynnag, efallai y bydd maint Datblygiadau Un Blaned yn cael ei gyfyngu yn y pen draw i'r hyn sy'n dderbyniol, fel yr esbonnir ym mharagraffau 2.14 - 2.15 isod.
- 2.10 Mae'r adran Asesiad Effaith Cymunedol o'r Arweiniad Ymarferol yn mynd ymlaen i nodi, ym mharagraffau 3.111 - 3.112, y gall Datblygiadau Un Blaned:
- “...gynnig cyfleoedd cymdeithasol i gymunedau lleol fel diwrnodau agored, llwybrau troed a mathau eraill o fynediad, a thrwy gynnal digwyddiadau lleol.”
- ac y gall Datblygiadau Un Blaned:
- “... gyfrannu i'r economi leol drwy werthu bwyd a chynnyrch arall, ond gallent gael effaith negyddol os byddant yn cystadlu'n uniongyrchol â chynhyrchwyr lleol presennol. Gellir cael effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar Ôl Traed Ecolegol preswylwyr y cymunedau hyn drwy werthu bwyd a thanwydd i gymunedau lleol...”
- 2.11 Mae'r Arweiniad Ymarferol felly yn gosod y llwyfan ar gyfer darparu manteision cymunedol lleol mewn ffyrdd sy'n integreiddio Datblygiad Un Blaned i'r gymuned leol. Dylai'r manteision hyn gael eu nodi'n benodol mewn unrhyw gynllun rheoli ar gyfer Datblygiadau Un Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r rhain yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â:
- Gwerthiannau lleol o gynnyrch a dyfwyd gartref a fydd ei angen hefyd i ddarparu incwm i ddeiliaid Datblygiadau Un Blaned.
  - Darparu cyngor a hyfforddiant ar ffyrdd o fyw cynaliadwy a chynhyrchu carbon isel.
  - Darparu cyfleusterau ar gyfer y gymuned leol megis llwybrau troed a defnydd ar y cyd o gyfleusterau cymunedol ar y safle Datblygiad Un Blaned.
- 2.12 Yn dilyn fformat yr Arweiniad Ymarferol dylai'r manteision hyn, yn dibynnu ar eu natur, gael eu nodi'n glir yn y canlynol:
- (a) Elfen Gweithgareddau ar Dir y cynllun rheoli o dan 'Menter – Incwm'; a / neu
  - (b) Elfen Asesiad Effaith Cymunedol y cynllun rheoli.



## **GOFYNIAD B: Mae pob gweithgarwch a strwythur ar y safle yn cael effaith isel o ran yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau**

- 2.13 Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bron pob agwedd ar yr Arweiniad Ymarferol. Yn benodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn chwilio am gyfleoedd i:
- Lleihau **gwastraff** gyda chymaint ag sy'n bosibl o aildefnyddio ac ailgylchu ar y safle gyda'r glanweithdra angenrheidiol yn cael ei ddarparu ar y safle. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (paragraffau 3.68 - 3.78), a dylid disgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n trafod Gwastraff.
  - Lleihau ac ail-ddefnyddio **ynni** a **dŵr** gydag anghenion ynni'r trigolion yn dod o'r safle. Dyma'r sefyllfa yn achos dŵr hefyd, oni bai y gellir dangos bod yna ddewis amgenach mwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (paragraffau 3.53 - 3.67), a dylid disgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n trafod Ynni a Dŵr.
  - Codi **adeiladau** 'di-garbon' o ran eu hadeiladwaith a'u defnydd. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (paragraffau 3.79 - 3.109), a dylid disgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n trafod Adeiladau Di-Garbon.
  - Bod â targedau **cynhyrchu traffig** sydd lawer is na'r hyn a ddisgwyllir gan ddatblygiad tebyg a weithredir mewn ffordd gonfensiynol. Gall targedau teithio gynnwys: lleihau teithiau mewn cerbydau; lleihau teithiau mewn cerbydau gyda'r gyrrwr yn unig; gostwng milltiroedd; rhannu teithiau a lleihau biliau tanwydd/defnyddio tanwydd. Bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod yn fodlon nad ellir gwneud i'r cynnig berfformio'n well. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (paragraffau 3.118 - 3.136), a dylid disgrifio'r agweddau hyn yn y rhannau hynny o'r cynllun rheoli sy'n trafod Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio.
  - Creu prosiect y mae modd ei **droi'n ôl**, i'r graddau y gall adeiladau newydd gael eu dymchwel yn hawdd ac adfer y tir yn hawdd i'w gyflwr blaenorol os yw hyn yn briodol os digwydd i'r prosiect fethu. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (paragraffau 3.95 - 3.99, 5.11 -5.16), a dylid disgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n trafod y Strategaeth Ymadael.
- 2.14 Yn ogystal, mae Gofyniad B yn gofyn am ddatblygiad sydd **ar raddfa heb fod yn fwy nag sydd ei angen i ddiwallu anghenion y prosiect yn gyffredinol**. Mae hwn yn ofyniad penodol o fewn y Parc Cenedlaethol lle mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn arbennig o awyddus i sicrhau na fydd y datblygiad yn cynnwys elfennau nad ydynt yn hanfodol ee twnelau polythen heb eu defnyddio neu dyrbinau gwynt mawr diangen neu sy'n cynhyrchu llawer mwy nag sydd ei angen gan drigolion y safle ac unrhyw fusnesau sydd ganddynt.
- 2.15 Mae'n hanfodol felly bod Dyluniad / Strategaeth y cynllun rheoli yn dangos bod maint y datblygiad yn gymesur ag anghenion y cynigion, ac yn osgoi codi adeiladau diangen a strwythurau eraill nad ydynt yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y Datblygiad Un Blaned. Graddfa dderbyniol Datblygiadau Un Blaned yn y Parc Cenedlaethol yw graddfa sy'n ddigon i gyflawni nodweddion hanfodol (Paragraff 1.9 o'r Arweiniad Ymarferol) a meini prawf hanfodol (Paragraff 2.7 o'r Arweiniad Ymarferol) y Datblygiad Un Blaned ac ar yr un pryd yn parchu tirwedd a warchodir ac yn gweddu iddi. Bydd y dulliau o gyflawni hyn yn amrywio yn ôl lleoliad – ac yn yr un modd, graddfa dderbyniol y Datblygiad Un Blaned. Mae hyn yn rhywbeth y gallai fod yn ddefnyddiol i'w drafod gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

### **GOFYNIAD C: Archwiliwyd cyfleoedd i aildddefnyddio adeiladau sydd ar gael yn ardal weithredu'r cynnig a dangoswyd nad ydynt yn ymarferol**

- 2.16 **Ail-dddefnyddio adeiladau presennol:** O fewn y Parc Cenedlaethol mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn arbennig o awyddus bod yr adeiladau hynny sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal trwy eu rhinweddau pensaernïol cynhenid neu eu lleoliad yn y dirwedd, yn cael eu hail-dddefnyddio.<sup>11</sup> Os nad ydych yn siŵr a yw'r adeiladau ar eich safle yn bodloni'r disgrifiad hwn, gofynnwch am gyngor Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Efallai y bydd angen arolwg priodol o rywogaethau. Dylid bod wedi archwilio cyfleoedd i ail-dddefnyddio adeiladau sydd ar gael ar safle'r cynnig, a dylid medru dangos nad yw'n ymarferol eu hail-dddefnyddio cyn cynnig adeiladau newydd.
- 2.17 Lle mae adeiladau presennol o werth arbennig, gall eu hail-dddefnyddio fel rhan o Ddatblygiad Un Blaned fod yn dderbyniol er na fydd eu perfformiad amgylcheddol, o bosibl, gystal ag adeiladau newydd o ran adeiladwaith a defnydd. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl i flaenoriaeth gael ei rhoi i ail-dddefnyddio adeiladau presennol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal cyn y caiff strwythurau newydd eu hystyried, er, mewn rhai achosion, gall yr adeiladau presennol fod yn hyll, a dylid cael gwared â nhw. Efallai y bydd cael gwared ag unrhyw adeiladau o'r fath yn un o amodau unrhyw ganiatâd a roddir. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (Paragraff 3.4 Disgrifiad Llinell Sylfaen a pharagraffau 3.100-3.101 Adeiladau Presennol).
- 2.18 Bydd angen sôn am aildddefnyddio adeiladau yn y Disgrifiad Llinell Sylfaen, adran Dyluniad / Strategaeth o'r cynllun rheoli ac yna ymhelaethu arno yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n ymwneud ag Adeiladau Di-garbon.

### **GOFYNIAD D: Mae'r datblygiad wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd ac nid yw'n cael unrhyw effeithiau gwledol niweidiol**

- 2.19 **Yn gyffredinol:** O dan y Gofyniad hwn, bydd angen i chi ystyried sut y mae'r Datblygiad Un Blaned arfaethedig yn addas i'w lleoliad yn y dirwedd, a'i effaith debygol ar olygfeydd, yn enwedig o lwybrau cyhoeddus a golygfannau ac eiddo cyfagos. Dylid dilyn yr Arweiniad Ymarferol (Paragraffau 3.7 Llinell Sylfaen, a 3.37-3.52, yn enwedig 3.42-3.43 a 3.47).
- 2.20 Ym Mholisi 8 a Pholisi 15 y Cynllun Datblygu Lleol nodir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a'r ystyriaethau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau nad yw'r nodweddion arbennig hyn yn rhai fydd ar goll i genedlaethau'r dyfodol. Mae gwybodaeth am gymeriad y dirwedd leol ar gael i'ch helpu chi gyda'r gwaith hwn yn Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol<sup>12</sup> ac yn LANDMAP.
- 2.21 Fel rhan o hyn, yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol am sicrhau bod cynigion Datblygiadau Un Blaned yn cael eu hasesu yn glir o ran eu heffeithiau dros dro a pharhaol ar y dirwedd, yn enwedig o ystyried sut y bydd y safle yn cael ei weld o wylfannau cyhoeddus. Lle gwelir bod effeithiau niweidiol, bydd angen pennu mesurau lliniaru fel 'plannu sgrin'. Dylai'r mesurau lliniaru ddelio gydag effeithiau tirwedd dros dro a pharhaol ac ni ddylent ynddynt eu hunain achosi unrhyw effeithiau niweidiol ar y dirwedd. Fel arfer, dylid rhoi blaenoriaeth i blannu planhigion o rywogaethau brodorol a lleol.
- 2.22 Y lle gorau i ddisgrifio'r asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd yw'r rhan honno o'ch cynllun rheoli sy'n ymwneud â Rheoli Tir, o dan y pennawd Tirwedd (gweler paragraff 3.47 o'r Arweiniad Ymarferol). Dylai gynnwys datganiadau am y canlynol:
- effeithiau dros dro a pharhaol datblygiadau ategol ar y dirwedd, a

<sup>11</sup> Gweler paragraffau 4.47 a 4.48 a 4.50 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

<sup>12</sup> [Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Asesiad o Gymeriad y Dirwedd](#)

- sut y caiff effaith weledol golau ei chadw i'r lleiaf posibl

Trafodir y ddau fater hwn isod.

- 2.23 **Gweithgareddau cysylltiedig:** Unwaith eto, o fewn y Parc Cenedlaethol, lle mae tirwedd o ansawdd uchel iawn, bydd yn arbennig o bwysig ystyried effeithiau posibl datblygiadau ategol a'r defnydd o'r safle ar y dirwedd, megis effaith storio deunyddiau a pharcio cerbydau, yn ogystal â strwythurau atodol fel twnelau polythen. Gall y rhain, os cânt eu lleoli'n wael, greu effaith ychwanegol a bydd angen eu hystyried o ran eu effeithiau dros dro a pharhaol ar y dirwedd a bydd angen nodi mesurau lliniaru priodol.
- 2.24 Caiff safleoedd yn y Parc Cenedlaethol eu gwerthuso er mwyn sicrhau y gall prosiect Datblygiad Un Blaned sy'n datblygu'n llwyddiannus wneud hynny mewn ffordd sympathetig heb i effaith gronns datblygiad a newid o'r fath fod yn annerbyniol, er enghraifft, o ran lledaeniad twnelau polythen a strwythurau eraill i leoliadau amlwg iawn.
- 2.25 **Golau:** Gan y gall Datblygiadau Un Blaned gael eu lleoli yng nghefn gwlad i ffwrdd oddi wrth fathau eraill o ddatblygiad, mae angen cymryd i ystyriaeth effaith golau wrth asesu'r effaith bosibl ar y dirwedd ac yn weledol, ac effeithiau ar fywyd gwyllt. Yn y Parc Cenedlaethol ni fydd golau y gellir ei weld mewn ardaloedd cefn gwlad sydd fel arall heb olau yn cael ei ganiatáu.<sup>13</sup>

**GOFYNIAD E: Mae'r cynnig Datblygiad Un Blaned yn gofyn am leoliad gwledig ac wedi ei glymu'n uniongyrchol at y tir y mae wedi'i leoli arno, ac mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu arddwriaeth**

- 2.26 At ddibenion y Gofyniad hwn, mae'r term "wedi'i glymu'n uniongyrchol at y tir y mae wedi'i leoli arno" yn golygu bod y gweithgareddau ar y safle yn canolbwyntio ar y defnydd o adnoddau a dyfir, a fegir neu sy'n digwydd yn naturiol ar y safle dan sylw.
- 2.27 Os dilynr yr Arweiniad Ymarferol ac os cyflawnir meini prawf hanfodol yr Arweiniad, caiff y Gofyniad hwn ei fodloni. Yn benodol, mae'r Arweiniad Ymarferol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:
- f) bod y rhan fwyaf o anghenion bwyd yr holl drigolion ar y safle yn dod yn uniongyrchol o'r safle (yn cael eu tyfu neu eu magu) neu'n cael eu prynu gan ddefnyddio incwm sy'n deillio o gynhyrchion eraill a dyfir (fel pren) neu a fagwyd ar y safle. Esbonnir hyn ymhellach yn yr Arweiniad Ymarferol, ym mharagraffau 3.23-3.26, a bydd angen i chi ddisgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'ch cynllun rheoli sy'n ymwneud â Gweithgareddau ar Dir, o dan y pennawd Cynhaliaeth - Bwyd.
  - g) bod y safle yn cynhyrchu digon o incwm i dalu am anghenion sylfaenol holl drigolion y safle lle na all y safle eu darparu'n uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys dillad, teithio, TG / cyfathrebu, y Dreth Gyngor ac anghenion bwyd nas cwmpeisir gan yr uchod. Esbonnir hyn ymhellach yn yr Arweiniad Ymarferol ym mharagraffau 3.27-3.28, a bydd angen i chi ddisgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'ch cynllun rheoli sy'n ymwneud â Gweithgareddau ar Dir, o dan y pennawd Menter – Incwm.
  - h) bod y safle yn cynhyrchu'r holl ynni sydd ei angen gan drigolion y safle (gan gynnwys yr ynni sydd ei angen ar gyfer unrhyw brosesu) ac y gall gymhathu'r holl wastraff ar y safle ac eithrio symiau bach iawn o naill ai wastraff nad yw'n pydru neu wastraff peryglus (megis batris) lle gellir cyfiawnhau dewisiadau eraill ar sail mwy o gynaliadwyedd. Dylai'r rhan fwyaf o'r anghenion dŵr hefyd gael eu bodloni ar y safle. Esbonnir hyn ymhellach yn adrannau'r Arweiniad Ymarferol ar Ynni a Dŵr, a Gwastraff,

<sup>13</sup> Polisi 9 y Cynllun Datblygu Lleol - Llygredd Golau

a bydd angen i chi ddisgrifio'r agweddau hyn yn y rhan honno o'ch cynllun rheoli sy'n ymwneud ag Ynni a Dŵr, a Gwastraff.

- 2.28 Yn gryno, mae'r Arweiniad Ymarferol (paragraff 1.11) yn cydnabod y bydd angen i Ddatblygiadau Un Blaned gael eu lleoli yng nghefn gwlad oherwydd bydd y safle yn darparu holl ofynion y trigolion o ran bwyd, incwm, anghenion ynni a chymhathu gwastraff.

### **GOFYNIAD F: Fe fydd y cynnig yn darparu digon o fywoliaeth ar gyfer trigolion y safle ac yn cwrdd â'u hanghenion yn sylweddol**

- 2.29 Fel uchod, os dilynir yr Arweiniad Ymarferol ac os cyflawnir meini prawf hanfodol yr Arweiniad, caiff y Gofyniad hwn ei fodloni.

- 2.30 Fel y nodir yn y Arweiniad Ymarferol (Paragraff 3.18 - 3.21):

"Rhaid i'r bwyd ac incwm ddeillio o adnoddau tir y safle. Dyma'r sail i'r angen i fyw ar y safle a'r rheswm bod y safle'n unig gartref y meddianwyr. Hyn hefyd yw'r rheswm dros y berthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr ar y safle a gallu'r safle i gwrdd â'u hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm, a'r angen hefyd i ystyried nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol.

"Mae'n ddealedig, felly, y bydd y meddianwyr yn cael incwm gweddol dda o weithgareddau ar y tir ar y safle sy'n ddigon i gwrdd ag anghenion sylfaenol holl feddianwyr y safle o ran incwm a bwyd. Gall gweithgareddau ar y tir fod yn unrhyw fath o weithgarwch i dyfu a / neu fagu cynnyrch ar y safle (gan gynnwys prosesu'r cynnyrch hwnnw). Yn benodol, ni fydd incwm i gwrdd ag anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran incwm yn cynnwys incwm arall a gafwyd o'r safle neu o fannau eraill sydd heb berthynas â gweithgareddau ar y tir, nac unrhyw incwm sydd heb ei ennill.

"Os oes mwy nag un aelwyd ar y safle, bydd y cynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle yn ddigon i gwrdd ag anghenion sylfaenol holl feddianwyr y safle o ran bwyd ac incwm."

"Rhaid i'r cynnyrch a gaiff ei dyfu a'i fagu ar y safle (sy'n cwrdd ag anghenion y meddianwyr o ran bwyd ac incwm) fod yn ganlyniad i lafur meddianwyr y safle ac nid gweithwyr cyflogedig."

- 2.31 Fel y nodir yn yr Arweiniad Ymarferol, y disgwyliad, felly, yn achos Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored, yw y bydd un ai:

- 65% o'r hyn sy'n angenrheidiol i gwrdd ag anghenion holl feddianwyr y safle o ran bwyd yn cael ei dyfu a/neu ei fagu ar y safle; neu
- y bydd o leiaf 30% o'r hyn sy'n angenrheidiol i gwrdd ag anghenion yr holl feddianwyr o ran bwyd yn cael ei dyfu a/neu ei fagu ar y safle, ac y bydd y 35% o'r anghenion bwyd sy'n weddill yn cael eu diwallu drwy brynu neu gyfnewid gan ddefnyddio'r incwm neu gynnyrch dros ben o gynnyrch arall sydd wedi'i dyfu a/neu ei fagu ar y safle (er enghraifft, biomas neu goed neu gynnyrch dros ben).

- 2.32 Yn ogystal, disgwylir bod safle Datblygiad Un Blaned yn ennill digon o incwm i'w feddianwyr i fodloni eu hanghenion domestig sylfaenol drwy werthu cynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle, (a all gynnwys prosesu ac ychwanegu gwerth), a ffrydiau incwm eraill sy'n deillio o natur

gynhyrchiol ac atgynhyrchiol y safle, fel cyrsiau addysg a hyfforddiant, neu wasanaethau ymgynghori sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau ar y tir ar y safle. Dylai fod yn glir bod y gweithgareddau olaf hyn yn ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch. (Paragraff 3.31 o'r Arweiniad Ymarferol).

- 2.33 At ei gilydd, dylai'r incwm fod yn ddigon i dalu am leiafswm anghenion yr holl feddianwyr/aelwydydd o ran:
- Dillad
  - Teithio
  - TG / cyfathrebu
  - Y Dreth Gyngor
  - y 35% (neu lai) o'r anghenion bwyd sy'n weddill na ellir eu diwallu o'r cynnyrch a gaiff ei dyfu/magu ar y safle neu drwy gyfnewid (Paragraff 3.27 o'r Arweiniad Ymarferol)
- 2.35 Mae'r Arweiniad Ymarferol yn gofyn bod y lefelau hyn o gynhyrchu bwyd ac incwm yn cael eu cyflawni erbyn blwyddyn pump ar ôl i'r safle gael ei feddiannu gyntaf. Mae hyn yn cydnabod y bydd y safle yn cymryd nifer o flynyddoedd i setlo ac i gyrraedd ei gynhyrchiant uchaf.
- 2.36 Dylai pob un o'r uchod gael eu crybwyll yn y rhan honno o'ch cynllun rheoli sy'n ymwneud â Gweithgareddau ar Dir, o dan y penawdau Cynhaliaeth - Bwyd, a Menter - Incwm.
- 2.37 **Darparu gwybodaeth ariannol:** Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl bod gwybodaeth ariannol yn cael ei chynnwys yn y cynllun rheoli i helpu i ddangos sut y bydd y cynigion yn cwrdd ag anghenion y trigolion. Mae'r Arweiniad Ymarferol yn gofyn y canlynol:
- "Dylid cynnwys mantolen syml...i ddangos sut bydd y safle'n cynhyrchu digon o incwm i gwrdd ag anghenion sylfaenol yr holl feddianwyr o ran incwm. Bydd y fantolen wedi'i seilio ar ragolygon o'r incwm disgwyledig o werthu cynnyrch y safle." (Paragraff 3.29).
- 2.38 Yn achos Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, argymhellir bod ymgeiswyr am Ddatblygiadau Un Blaned yn dangos yn glir o ble y daw'r incwm hwn, a dangos hyfywedd eu mentrau drwy gyflwyno cynllun busnes amlinellol cryno yn cwmpasu:
- y cynnyrch arfaethedig a'r marchnadoedd ar eu cyfer
  - gwariant / incwm a ragwelir (a nodi faint o incwm sydd ei angen i adennill costau)
  - yr elw sydd ar gael i fodloni isafswm anghenion incwm trigolion y safle
  - os bydd unrhyw fentrau'n dibynnu ar fenthyciadau, yna sut y caiff benthyciadau hyn eu had-dalu
  - Rhagolwg o Lif yr Arian. Hon, o bosib, yw'r wybodaeth bwysicaf. Dylid amcangyfrif costau ac incwm misol. Gall y costau ac incwm misol gwirioneddol gael eu cymharu â'r amcangyfrifon i weld sut mae'r busnes yn perfformio'n ariannol.
- 2.39 Dylai'r wybodaeth hon gael ei nodi'n glir yn y rhan honno o'r cynllun rheoli sy'n ymwneud â Menter – Incwm, o bosibl gyda'r Cynllun Busnes amlinellol yn atodedig.

### **GOFYNIAD G: Dylai nifer y preswylwyr sy'n oedolion fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gofynion ymarferol y fenter**

- 2.40 Unwaith eto, os dilynir yr Arweiniad Ymarferol ac os cyflawnir meini prawf hanfodol yr Arweiniad, caiff y Gofyniad hwn ei fodloni. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod perthynas glir rhwng y defnydd o'r tir, y prosiect a gynigir a nifer y meddianwyr sydd i'w cynnal ar y safle, gan gynnwys rôl a nifer yr oedolion sy'n angenrheidiol i weithio'r tir.



2.41 Yn yr Arweiniad Ymarferol, nodir ym mharagraff 3.30:

"Y gallu sydd gan Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored i ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol eu meddianwyr o ran bwyd ac incwm yw'r prif gyfiawnhad dros ddatblygiadau o'r fath, yng nghyd-destun cynllunio. Dyma'r prif ffactor sy'n cyfrannu at lefel cynaliadwyedd uchel y datblygiadau hyn hefyd – mewn lleoliadau lle na fyddai'n bosibl byw'n gynaliadwy iawn fel arall. Felly mae'n hanfodol bwysig bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i'w cynnal **a nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol**. Os yw'r ddau rif hyn yn anghymharus, a bod nifer y bobl y mae eu hangen i weithio'r tir a rhedeg y safle'n effeithiol yn fwy na'r nifer y gall y safle ei gynnal, ni all y cynigion gwrdd â'r gofynion ar gyfer Datblygiad Un Blaned."

2.42 Un o'r meini prawf hanfodol yn yr Arweiniad Ymarferol yw, mewn Datblygiadau Un Blaned (Paragraff 3.31):

"Bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm a nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol."

2.43 Yn eich cynllun rheoli, mae angen nodi'n glir, yn yr adran Gweithgareddau ar Dir, o dan y pennawd Meddianwyr, faint o feddianwyr sydd eu hangen ar y safle i redeg y mentrau'n effeithiol.

#### **GOFYNIAD H: Os yw'r datblygiad yn ymwneud ag aelodau mwy nag un o'r teulu, fe fydd y cynnig yn cael ei reoli gan ymddiriedolaeth, cydweithfa neu fecanwaith tebyg arall y mae gan y preswylwyr fudd ynddo**

2.44 Mae hyn hefyd yn un o ofynion TAN 6 paragraff 4.15.2, fel a ganlyn: " Lle bo Datblygiadau Un Blaned yn cynnwys aelodau mwy nag un teulu, dylai'r cynnig gael ei reoli gan ymddiriedolaeth, cwmni cydweithredol neu fecanwaith tebyg arall lle y mae gan y meddianwyr fuddiant ynddo." Mae angen i hyn gael ei ddatgan yn glir yn adran Dyluniad/Strategaeth y cynllun rheoli (Darllenwch hefyd baragraffau 1.19 a 3.12 o'r Arweiniad Ymarferol).

2.45 O safbwynt Awdurdod y Parc Cenedlaethol, lle mae mwy nag un teulu'n gysylltiedig â'r prosiect, bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos y bydd ymddiriedolaeth, cydweithfa neu gorff cyhoeddus arall (trwy berchnogaeth, rhannu ecwiti neu fecanwaith gadarn arall) yn gwarantu nodau cynaliadwy'r datblygiad dros gyfnodau o newidiadau olynol mewn meddiannaeth neu berchnogaeth.

2.46 Yn yr un modd, gall cyrff o'r fath helpu i sicrhau y bydd datblygiad cynaliadwy yn aros yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy trwy newidiadau olynol mewn aelodaeth neu feddiannaeth. Mae pryder, wrth gwrs, y gallai'r ymddiriedolaeth ei hun, gydag amser, newid ei nodau. Fodd bynnag, mae *The Land is Ours* yn cynghori, yn achos ymddiriedolaeth elusennol, ei bod yn gwbl bosibl gwneud trefniadau cyfreithiol fel na ellir newid ei chyfansoddiad heb gydsyniad y Comisiynwyr Elusennau, neu yn wir heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

## Gofynion penodol eraill Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

### Trafodaethau cyn cyflwyno cais

2.47 Ym mharagraff 1.14 o'r Arweiniad Ymarferol rhoddir pwyslais ar fod darpar Ddatblygwyr Un Blaned yn cysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol ar y dechrau'n deg i drafod y cynigion sydd ar y gweill ganddynt fel rhan o **drafodaethau cyn cyflwyno cais**. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'u partneriaid am bwysleisio gwerth y trafodaethau cyn cyflwyno cais. Fodd bynnag, bydd yn fwy cynhyrchiol o'r ddwy ochr os bydd gan y darpar ymgeisydd, cyn iddo wneud apwyntiad gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, syniad clir o natur y datblygiad a gynigir a sut y gellir ei gyflawni. Po fwyaf o wybodaeth y gellir ei darparu am y datblygiad yn y cam hwn, y gorau a chliriach y cyngor a gynigir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Felly, i drafod cynllun cyn cyflwyno cais bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddefnyddiol am wybod:

1. Yr amcanion rheoli a fwriedir ar gyfer y safle (Blwch 1 o'r Arweiniad Ymarferol).
2. Y gwaith y byddwch chi'n ei wneud i gyflawni'r amcanion rheoli a pham y mae angen i chi fod yng nghefn gwlad
3. Bod nifer y meddianwyr ar y safle yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu'r safle i'w cynnal a nifer y bobl sydd eu hangen i redeg y safle yn effeithiol (paragraffau 3.17 - 3.21 o'r Arweiniad Ymarferol).
4. Sut fydd eich cynllun yn eich galluogi i fod yn sylweddol hunan-gynhaliol ar y safle o ran bwyd ac incwm (paragraffau 3.21 - 3.28, 3.29).
5. Sut y bydd y safle'n cael ei ddatblygu - byddai darlun o'r prosiect arfaethedig yn cynnwys disgrifiad o berthynas y prosiect gyda'r dirwedd yn hynod ddefnyddiol.
6. Graddau llawn unrhyw dir ac adeiladau sydd ar gael i'r prosiect, gan nodi'r adeiladau hynny sy'n addas i'w hail-ddefnyddio.
7. Natur unrhyw adeiladau / anheddau sydd eu hangen gan gynnwys eu hadeiladwaith.
8. Sut rydych chi'n bwriadu darparu eich anghenion ynni a dŵr o'r safle a gwaredu carthffosiaeth a gwastraff, a'r technolegau a ddefnyddir i wneud hyn yn gynaliadwy ac yn fach ei effaith.
9. Amlinelliad o'r traffig arfaethedig a gynhyrchir o'r safle ynghyd ag unrhyw gyfleoedd i leihau'r traffig.
10. Sut y bydd y datblygiad yn gwneud cyfraniad amgylcheddol ac economaidd a / neu gymdeithasol cadarnhaol gyda manteision cyhoeddus.

2.48 Bydd yr asesiad cychwynnol a ddarperir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel rhan o'r trafodaethau cyn-ymgeisio yn helpu i ddatblygu'r cynllun, penderfynu arno, ac wrth lunio cynllun rheoli priodol a'r gofynion monitro.

### Ystyriaethau Cynllunio Safonol

2.49 O fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae'n bwysig bod y cynllun rheoli yn disgrifio unrhyw elfennau a fyddai'n nodweddiadol o ddatblygiad safonol. Yn benodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl gweld manylion am:

- Ddraenio'r safle
- Symudiadau cerbydau a'u nifer yn ystod y cyfnod adeiladu

- Darpariaeth parcio beiciau a cheir, a threfniadau mynediad arfaethedig.
- 2.50 Gall y rhain gael eu disgrifio ble bynnag y maent fwyaf perthnasol a rhesymegol o fewn strwythur y cynllun rheoli ond dylid eu nodi'n glir yn rhestr gynnwys y cynllun rheoli.

### **Monitro blynyddol**

- 2.51 Mae'r angen am fonitro cynllun rheoli Datblygiad Un Blaned trwy fonitro blynyddol wedi'i nodi ym Mhennod 5 o'r Arweiniad Ymarferol. Bydd angen nodi'r cynigion ar gyfer monitro yn glir yn y cynllun rheoli.
- 2.52 O fewn cyd-destun y Parc Cenedlaethol bydd yn bwysig i'r cynllun rheoli gadarnhau y bydd yr adroddiadau monitro blynyddol yn nodi'n glir y camau a fydd yn cael eu cymryd i ymateb i unrhyw fethiannau 'coch' neu 'melyn' fel y disgrifir yn yr Arweiniad Ymarferol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau wrth iddynt godi.

### 3 Dilyn y gofynion ym Mholisi 47

3.1 **Mae Tabl 3.1** isod yn nodi gofynion Polisi 47 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gyferbyn â phob gofyniad mae'n:

- darparu'r cyfeiriadau perthnasol at yr Arweiniad Ymarferol i Ddatblygiadau Un Blaned;
- nodi a yw hyn yn ofyniad penodol o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (sydd heb ei drafod yn llawn yn yr Arweiniad Ymarferol);
- nodi ym mhle y dylai hyn gael ei ddisgrifio yn y cynllun rheoli ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Tabl 3.1

Polisi 47: Meini prawf	Y paragraffau perthnasol yn yr Arweiniad Ymarferol	Gofyniad sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol	Ymhle y dylai hyn gael ei ddisgrifio yn eich cynllun rheoli
<p><b>A.</b> Bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad amgylcheddol, cymdeithasol a / neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus.</p> <p><b>a)</b> Cyfraniad amgylcheddol positif gyda manteision cyhoeddus.</p> <p><b>b)</b> Cyfraniad cymdeithasol a / neu economaidd positif gyda manteision cyhoeddus.</p>	<p>1.9, 3.2-3.8, 3.37-3.52</p> <p>3.28, 3.111-3.112</p>	<p>YDY (yr agwedd manteision cyhoeddus)</p> <p>YDY</p>	<p>Llinell Sylfaen; crynodeb yn y Dyluniad / Strategaeth; disgrifiad llawn yn yr elfen <b>Rheoli Tir</b> o'ch cynllun rheoli.</p> <p><b>Gweithgaredd ar Dir</b> a / neu elfennau <b>Aseiad Effaith Cymunedol</b> eich cynllun rheoli</p>
<p><b>B.</b> Pob gweithgaredd a strwythur ar y safle yn cael effaith isel o ran yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau.</p> <p>Yn gysylltiedig â:</p> <p><b>a)</b> Gwastraff</p> <p><b>b)</b> Dŵr ac ynni</p> <p><b>c)</b> Adeiladau</p> <p><b>d)</b> Traffig</p> <p><b>e)</b> Gallu cynigion i gael eu dymchwel</p> <p><b>f)</b> Maint y cynigion ddim mwy nag sydd angen</p>	<p>1.9, 3.68-3.78</p> <p>1.9, 3.53-3.67</p> <p>1.9, 3.79, - 3.109</p> <p>1.9, 3.118 - 3,136</p> <p>3.95 -3.99, 5.11-5.16</p> <p>-</p>	<p>YDY</p>	<p>Elfen <b>Gwastraff</b> eich cynllun rheoli</p> <p>Elfen <b>Ynni a Dŵr</b> o'ch cynllun rheoli</p> <p>Elfen <b>Adeiladau Di-garbon</b> eich cynllun rheoli</p> <p>Elfen <b>Aseuadau Trafnidiaeth - Cynllun Teithio</b> o'ch cynllun rheoli</p> <p><b>Strategaeth Ymadael</b></p> <p><b>Dyluniad / Strategaeth</b></p>
<p><b>C.</b> Archwiliwyd cyfleoedd i aildefnyddio adeiladau sydd ar gael yn ardal weithredu'r cynnig, a dangoswyd nad ydynt yn ymarferol.</p>	<p>3.4, 101-102</p>	<p>YDY</p>	<p>Llinell Sylfaen; crynodeb yn y Dyluniad / Strategaeth; Elfen <b>Adeiladau Di-garbon</b> o'ch cynllun rheoli</p>



Polisi 47: Meini prawf	Y paragraffau perthnasol yn yr Arweiniad Ymarferol	Gofyniad sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol	Ymhle y dylai hyn gael ei ddisgrifio yn eich cynllun rheoli
<p>D. Mae'r datblygiad wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd ac nid yw'n cael unrhyw effeithiau gweledol niweidiol.</p> <p>a) Yn gyffredinol</p> <p>b) Gweithgareddau cysylltiedig</p> <p>c) Golau</p>	<p>3.7, 3.37-3.52 yn enwedig 3.42-3.43 a 3.47</p> <p>-</p> <p>-</p>	<p>YDY</p> <p>YDY</p>	<p>Llinell Sylfaen; crynodeb yn y Dyluniad / Strategaeth; disgrifiad llawn yn yr elfen <b>Rheoli Tir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y pennawd <b>Tirwedd</b></p> <p>Fel uchod</p> <p>Fel uchod</p>
<p>E. Mae'r cynnig yn gofyn am leoliad gwledig ac wedi ei glymu'n uniongyrchol at y tir y mae wedi'i leoli arno, ac mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu arddwriaeth.</p> <p>a) Anghenion bwyd o'r safle</p> <p>b) Incwm o'r safle</p> <p>c) Cymathu ynni a gwastraff</p>	<p>1,9, 1.11</p> <p>3.23-3.24</p> <p>3.27-3.28</p> <p>3.53-3.67</p>		<p>Elfen <b>Gweithgareddau ar Dir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y pennawd <b>Cynhaliath - Bwyd</b></p> <p>Elfen <b>Gweithgareddau ar Dir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y pennawd <b>Menter - Incwm</b></p> <p>Elfennau <b>Gwastraff</b> ac <b>Ynni a Dŵr</b> o'ch cynllun rheoli</p>

Polisi 47: Meini prawf	Y paragraffau perthnasol yn yr Arweiniad Ymarferol	Gofyniad sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol	Ymhle y dylai hyn gael ei ddisgrifio yn eich cynllun rheoli
<p>F. Bydd y cynnig yn darparu digon o fywoliaeth ar gyfer trigolion y safle ac yn cwrdd â'u hanghenion yn sylweddol.</p> <p>a) Yn gyffredinol</p> <p>b) Darparu gwybodaeth ariannol</p>	<p>1.9, 1.11</p> <p>3.18-3.21, 3.25, 3.27, 3.31</p> <p>3.29</p>	<p>YDY</p>	<p>Elfen <b>Gweithgareddau ar Dir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y penawdau <b>Cynhaliath - Bwyd a Menter - Incwm</b></p> <p>Elfen <b>Gweithgareddau ar Dir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y penawd <b>Incwm</b></p>
<p>G. Dylai nifer y preswylwyr sy'n oedolion fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gofynion ymarferol y fenter.</p>	<p>3.30-3.31</p>		<p>Elfen <b>Gweithgareddau ar Dir</b> o'ch cynllun rheoli o dan y penawd <b>Meddianwyr</b></p>
<p>H. Os yw'r datblygiad yn ymwneud ag aelodau mwy nag un teulu, fe fydd y cynnig yn cael ei reoli gan ymddiriedolaeth, cydweithfa neu fecanwaith tebyg arall y mae gan y preswylwyr fudd ynddo.</p>	<p>1.19, 3.12</p>		<p>Crynodeb yn y Dyluniad / Strategaeth. Manylion mewn Atodiad.</p>